

Oriel
Davies
Gallery

# What's On
# Beth sydd Ymlaen

April - August 2010 Ebrill - Awst 2010

www.orieldavies.org

GALLERY·CAFE·SHOP·ORIEL·CAFFI·SIOP

# siop yr
# oriel davies shop

Designer jewellery, ceramics  and textiles
Design-led giftware and stationery
Children's toys, books and games
A wide range of books and art magazines
Gemwaith, cerameg a thecstilau gan ddylunydd
Anrhegion a nwyddau swyddfa gan ddylunydd
Teganau, llyfrau a gemau i blant
Ystod eang o lyfrau a chylchgronau celf




**Emerging and established craftspeople wanted! Interested? Then please send a CV, statement, images and current pricelist. Contact: Rhian Davies T: 01686 625 041  E: rhian@orieldavies.org Crefftwyr sy'n dechrau dod yn amlwg a rhai sefydledig yn eisiau! Diddordeb? Anfonwch CV, datganiad, delweddau a rhestr brisiau. Cyffyrddiad: T: 01686 625 041  E: rhian@orieldavies.org**

All profits from the shop go towards our creative programmes and visitor services. Oriel Davies Gallery offers The Principality Collectorplan - the Arts Council of Wales' **INTEREST FREE LOAN** scheme for purchasing original art and craft. Students receive a discount of 15% on all books. Mae'r holl elw o'r siop yn mynd tuag at ein rhaglenni creadigol a'n gwasanaethau i ymwelwyr. Mae Oriel Davies Gallery yn cynnig cynllun **BENTHYCIAD DI-LOG** Cyngor Celfyddydau Cymru – Cynllun Casglu'r Principality i brynu celf a chrefft gwreiddiol.  Mae myfyrwyr yn derbyn disgownt o 15% ar bob llyfr.

01 Exhibitions Arddangosfeydd
09 Workshops, Talks, Courses and Events Gweithdai, Sgyrsiau, Cyrsiau a Digwyddiadau
09 Courses Cyrsiau
11 Chidren and Family Workshops Gweithdai i Blant a Theuluoedd
14 Talks + Events Sgyrsiau a Digwyddiadau
15 News Newyddion
16 Friends of Oriel Davies  Cyfeillion Oriel Davies
17 Schools + Colleges Ysgolion a Cholegau
20 How to Find Us Sut i Ddod o Hyd i Ni

Oriel Davies Gallery

GALLERY·CAFE·SHOP·ORIEL·CAFFI·SIOP
Oriel Davies Gallery, The Park, Newtown, Powys SY16 2NZ
T: +44 (0)1686 625041   F: +44 (0)1686 623633   E: enquiries@orieldavies.org
Monday - Saturday, 10am-5pm  Llun - Sadwrn, 10yb - 5yh
www.orieldavies.org
Arts Council of Wales Beacon Company Award 2008-10
Dyfarniad Cwmni Disglair Cyngor Celfyddydau Cymru 2008-10

Arts Council of Wales Beacon Company Award 2008-10
Dyfarniad Cwmni Disglair Cyngor Celfyddydau Cymru 2008-10

A large print text version of this booklet is available
Mae fersiwn print bras o'r llyfryn hwn ar gael
T: +44 (0)1686 625041   F: +44 (0)1686 623633

Disabled parking adjacent to the Gallery. Level wheelchair access to all galleries, shop and café. Fully accessible toilets.  Assistance dogs welcome. If you have have specific access requirements, please contact the Gallery in advance of your visit. We warmly welcome all. Parcio i'r anabl ger yr Oriel. Mynediad gwastad i gadeiriau olwyn i'r holl orielau, y siop a'r caffi. Toiledau cwbl hygyrch. Croeso i g n cymorth. Os oes gennych ofynion penodol yngl  n â mynediad, cysylltwch â'r Oriel cyn eich ymweliad. Rydym yn estyn croeso cynnes i bawb.

Front cover image: Delwedd ar y clawr blaen:
Dave Lewis *Polly and Aron at Llanidloes Carnival, mid Wales* (detail) July 2009 C-type print

# Field Work
# **Dave Lewis**

17 April – 9 June 2010
17 Ebrill– 9 Mehefin 2010

Dave Lewis is a photographer and filmmaker who explores identity and the ways in which people feel they belong to a particular place.

*Field Work* is a new body of work generated through Lewis' dual role as both 'the artist as stranger' and that of the anthropologist - concerned with understanding cultural identity. In the process of gathering first-hand evidence in two particular locations - Newtown in mid Wales and Sway in the New Forest - Lewis draws parallels between these two roles, showing how they often pursue similar methods of investigation and share common aims.

The communities of Newtown and Sway are linked through Lewis' processes, which involve interviewing local residents and documenting local events such as festivals and carnivals.

*Dave Lewis: Field Work* is a co-commission by Autograph ABP, ArtSway and Oriel Davies Gallery.

Ffotograffydd a gwneuthurwr ffilmiau yw Dave Lewis sy'n archwilio hunaniaeth a'r ffyrdd y mae pobl yn teimlo eu bod nhw'n perthyn i le penodol.

Corff newydd o waith yw *Field Work* a grëwyd drwy rôl ddeuol Lewis fel 'yr artist fel dieithryn' ac fel anthropolegwr - yn pryderu ynghylch deall hunaniaeth ddiwylliannol. Yn y broses o gasglu tystiolaeth o lygad y ffynnon mewn dau leoliad penodol - Y Drenewydd yng Nghanolbarth Cymru a Sway yn y New Forest - mae Lewis yn llunio paralelau rhwng y ddwy rôl yma, a'n dangos sut maen nhw'n aml yn mynd ar ôl dulliau tebyg o archwilio a'n rhannu nodau cyffredin.

Mae cymunedau Y Drenewydd a Sway yn cael eu cysylltu gyda'i gilydd drwy brosesau Lewis, sy'n cynnwys cyfweld â thrigolion lleol a dogfennu digwyddiadau lleol fel gwyliau a charnifalau.

Comisiwn ar y cyd yw *Dave Lewis: Field Work* rhwng Autograph ABP, ArtSway ag Oriel Davies Gallery.

**Exhibition Preview**
Saturday 17 April 2010, 6-8pm

**Rhagolwg o'r Arddangosfa**
Dydd Sadwrn 17 Ebrill 2010, 6-8yh

AUTOGRAPH ABP   ArtSway Contemporary Visual Art in the New Forest

**Lunchtime Tour of the Exhibition**
Join Alex Boyd, Curator for an informal lunchtime tour of the exhibition.
Wednesday 12 May 2010, 12.30pm. **Free**

**Taith o'r Arddangosfa yn ystod Amser Cinio**
Ymunwch â'r Curadur Alex Boyd, am daith anffurfiol o'r arddangosfa yn ystod amser cinio.
Dydd Mercher 12 Mai 2010, 12.30yh. **Am ddim**





Dave Lewis *Field Work* 2010 (video stills)

# The Modes of Al-Ikseer
# Harminder Singh Judge

## Friday 18 June 2010, 7.30pm

(duration 45 minutes)

**A free performance, but booking essential as places are limited.**

*The Modes of Al-Ikseer* is a new performance project by Harminder Singh Judge, touring the UK during 2010. This is a stunningly visual narrative performance that hybridises live art and musical spectacle, featuring a remix of the classic Depeche Mode track *Personal Jesus* with live Dhol drumming.

The work examines the artist's fascination with contemporary pop culture and Hindu myth, taking the 'Churning of the Ocean' as a platform for the development of an original work. The artist revolves on a slowly moving aluminium platform, surrounded by a pool of milk, to bring to life the ancient Hindu story of the 'Churning of the Ocean'. This mythical story recounts how the elixir of life was created when the Devas (gods) and the Asuras (devils) allied to churn the ocean. Vasuki, the King of the Serpents, was employed as a rope and wrapped around Mount Mandaranchal in order to create the elixir. The first attempt failed, but as the mountain began to sink into the ocean, the god Vishnu appeared as a turtle supporting the mountain on his back.

**The Gallery Café will be open from 6.30pm, until the start of the performance.**

## Dydd Gwener 18 Mehefin 2010, 7.30yh

(45 munud)

**Perfformiad am ddim, ond mae rhaid bwcio gan fod llefydd yn gyfyng.**

Perfformiad newydd gan Harminder Singh Judge yw *The Modes of Al-Ikseer*, sy'n mynd ar daith o amgylch y DU yn ystod 2010. Mae hwn yn berfformiad hynod o drawiadol sy'n cymysgu celfyddyd byw a pherfformiad cerddorol, ac sy'n cynnwys fersiwn wedi'i ailgymysgu o drac gwych Depeche Mode, *Personal Jesus*, gyda drymio Dhol byw.

Mae'r gwaith yn archwilio cyfaredd yr artist â diwylliant pop cyfoes a chwedlau Hindŵaidd, gan gymryd 'Corddi'r Cefnfor' fel platfform ar gyfer datblygu gwaith gwreiddiol. Mae'r artist yn troi rownd a rownd ar blatfform alwminiwm sy'n symud yn araf, wedi'i amgylchynu gan bwll o laeth, i ddod â'r stori Hindŵaidd hynafol 'Corddi'r Cefnfor' i fywyd. Mae'r stori chwedlonol hon yn dwyn i gof sut y crëwyd elicsir bywyd pan ddaeth y Devas (duwiau) a'r Asuras (diafoliaid) at ei gilydd i gorddi'r cefnfor. Cyflogwyd Vasuki, Brenin y Seirff fel rhaff, ac fe'i lapiwyd o amgylch Mynydd Mandaranchal er mwyn creu'r elicsir. Ni fu'r cais cyntaf yn llwyddiannus, ond wrth i'r mynydd ddechrau suddo i'r môr, fe wnaeth y Duw Vishnu ymddangos fel crwban, gan gefnogi'r mynydd ar ei gefn.

**Bydd Caffi'r Oriel ar agor o 6.30yh, tan fydd y perfformiad yn cychwyn.**

*The Modes of Al-Ikseer* is produced by Simon Poulter and funded by the Arts Council England, National Initiatives Fund. Caiff *The Modes of Al-Ikseer* ei gynhyrchu gan Simon Poulter, a chaiff ei ariannu gan Gronfa Mentrau Cenedlaethol, Cyngor Celfyddydau Lloegr.



Harminder Singh Judge *The Modes of Al-Ikseer* 2010 Photo: Benedict Johnson

# Oriel Davies Open 2010
# RE:animate

26 June – 18 August 2010

*RE: animate*, Oriel Davies' latest biennial Open exhibition is selected from artists exploring the idea and discipline of animation in its broadest and most experimental sense.

The term 'animation' derives from the Latin 'anima' meaning life, and 'animare' meaning to breathe life into. Throughout history and all over the world, the urge to employ various techniques to give the impression of moving pictures has been profound - from cave drawings, magic lanterns, flick books and thaumatropes to cel animation, stop-motion film and computer generated animation today. In this exhibition, work depicts or presents actual movement and explores the possibilities of non-narrative structures and physical objects.

This year's selection panel includes Peter McLuskie, Flip Animation Festival Organiser, Light House, Wolverhampton; Ceri Hand, Director, Ceri Hand Gallery, Liverpool; Alex Boyd, Curator, Oriel Davies Gallery and a representative from the Oriel Davies' Young Curators 2010. Prizewinners will be announced at the preview. The first prizewinners will each be offered a solo exhibition at the Gallery in summer 2011.

Visitors can vote for the 'People's Choice' Prize which will be announced halfway through the exhibition. Please visit www.orieldavies.org for results.

Whittingham Riddell
chartered accountants

26 Mehefin – 18 Awst 2010

Caiff *RE: animate*, arddangosfa agored biennial diweddaraf Oriel Davies ei dewis gan artistiaid sy'n archwilio'r syniad a'r ddisgyblaeth o animeiddio yn ei synnwyr mwyaf eang a mwyaf arbrofol.

Mae'r term 'animeiddio' yn deillio o'r gair Lladin 'anima', sy'n golygu bywyd, ac 'animare', sy'n golygu anadlu bywyd i mewn i rywbeth. Drwy gydol hanes ac o amgylch y byd, mae'r cymhelliad i ddefnyddio technegau amrywiol i roi'r argraff bod lluniau'n symud wedi bod yn brofiad dwys - o ystyried lluniau mewn ogofau, llusernau hud, llyfrau fflic a thawmatropau a phethau fel animeiddio ar ffilm, ffilmiau stopio symudiadau ac animeiddio ar gyfrifiaduron heddiw. Yn yr arddangosfa hon, mae gwaith yn darlunio neu'n cyflwyno symudiadau o ddifrif, ac yn archwilio posibiliadau fframweithiau heb naratif a gwrthrychau corfforol.

Mae panel dethol eleni'n cynnwys Peter McLuskie, Trefnydd Flip Animation Festival, Light House, Wolverhampton; Ceri Hand, Cyfarwyddwr, Ceri Hand Gallery, Lerpwl; Alex Boyd, Curadur, Oriel Davies Gallery a chynrychiolydd o Guraduron Ifanc Oriel Davies 2010. Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn y rhagolwg o'r arddangosfa. Bydd yr enillwyr yn cael cynnig arddangosfa unigol yn yr Oriel yn ystod tymor yr haf 2011.

Mae ymwelwyr yn gallu pleidleisio am Wobr 'Dewis y Bobl', fydd yn cael ei chyhoeddi hanner ffordd drwy'r arddangosfa. Ewch i www.orieldavies.org i weld y canlyniadau.

Whittingham Riddell, Chartered Accountants are Principal sponsors of *RE:animate*, Oriel Open 2010
Y Cyfrifwyr Siartredig Whittingham Riddell, yw Prif noddwyr *RE:animate*, Arddangosfa Agored 2010 yr Oriel



**Exhibition Preveiw**
Saturday 26 June 2010, 7-9pm

**Rhagolwg o'r Arddangosfa**
Dydd Sadwrn 26 Mehefin 2010, 7-9yh

The Peoples Choice Prize is sponsored by Newtown Station Travel. Print sponsored by Imprint, Newtown.
Caiff Gwobr Dewis y Bobl ei noddi gan Newtown Station Travel. Mae'r Imprint, Y Drenewydd wedi cynorthwyo gydag argraffu.

**Lunchtime Tour of the Exhibition**
Join Alex Boyd, Curator for an informal lunchtime tour of the exhibition.
Wednesday 21 July 2010, 12.30pm. **Free**

**Taith o'r Arddangosfa yn ystod Amser Cinio**
Ymunwch â'r Curadur Alex Boyd, am daith anffurfiol o'r arddangosfa yn ystod amser cinio.
Dydd Mercher 21 Gorffennaf 2010, 12.30yh. **Am ddim**




Patrick Farmer and Sarah Hughes *Fantasy is a Place Where it Rains* 2010



Dawn Wooley *Interloper (dead legs) 2010* (detail)

# Fantasy is a Place Where it Rains
# **Patrick Farmer and Sarah Hughes**

17 April – 9 June 2010
17 Ebrill– 9 Mehefin 2010

Newtown-based artists Patrick Farmer and Sarah Hughes work both individually and collaboratively in response to the environment to develop and enhance our awareness of it. Their placement of poetic gestures encourage the viewer to reassess their habitual relationship with familiar environmental elements. Through installation, drawing and sound, *Fantasy is a Place Where it Rains* takes the River Severn as its subject, and comments on the benefits that can be found in examining the river in more depth.

Oriel Davies is grateful to the Esmée Fairbairn Foundation for their generous support of this initiative. Mae Oriel Davies yn ddiolchgar i Sefydliad Esmée Fairbairn am gefnogi'r fenter hon yn hael.

Mae'r artistiaid Patrick Farmer a Sarah Hughes sydd wedi'u sefydlu'n Y Drenewydd yn gweithio'n unigol a gyda'i gilydd mewn ymateb i'r amgyl-chedd, i ddatblygu a gwella ein hymwybyddiaeth ohono. Mae'r modd y maen nhw'n gosod ystumiau barddol yn annog y gwyliwr i ailasesu eu perthynas arferol gydag elfennau amgylcheddol cyfarwydd. Yr Afon Hafren yw pwnc *Fantasy is a Place Where it Rains*, sy'n cael ei chreu drwy osodiad, dyluniad a sain, ac sy'n sylwebu ar y manteision sy'n gallu cael eu canfod o ganlyniad i archwilio'r afon yn fwy dyfn.

Exhibition Preview
Saturday 17 April 2010, 6-8pm. **Free**
**Rhagolwg o'r Arddangosfa**
Dydd Sadwrn 17 Ebrill 2010, 6-8yh. **Am ddim**

# Interloper
# **Dawn Woolley**

26 June – 18 August 2010
26 Mehefin – 18 Awst 2010

*Interloper* examines the act of looking and being looked at - a central theme in Wooley's work. A photographic double replaces the artist, so that subject becomes object, forcing the viewer to question this boundary from a voyeuristic position.

Dawn Woolley's provocative approach to self-portraiture explores the relationship between 'the real' and visual representation, using traditional photographic language to question aspects of psychoanalysis, phenomenology and feminism.

Exhibition preview
Saturday 26 June 2010, 7-9pm. **Free**

Mae *Interloper* yn archwilio'r weithred o edrych a chael rhywun yn edrych arnoch chi - thema bwysig yng ngwaith Wooley. Mae ffotograff cyfatebol yn cymryd lle'r artist, fel bod y goddrych yn dod yn wrthrych, ac yn gorfodi'r gwyliwr i gwestiynu'r ffin hon o safbwynt llygadwr.

Mae dull cythruddol Dawn Woolley o ymdrin â hunanbortread yn archwilio'r berthynas rhwng'y real' a chynrychiolaeth weledol, gan ddefnyddio iaith ffotograffig draddodiadol i gwestiynu agweddau ar seicdreiddiad, ffenomenoleg a ffeministiaeth.

**Rhagolwg o'r arddangosfa**
Dydd Sadwrn 26 Mehefin 2010, 7-9yh. **Am ddim**

# Workshops, Talks, Courses and Events Gweithdai, Sgyrsiau, Cyrsiau a Digwyddiadau

Oriel Davies offers a range of arts activities for all ages which provide opportunities to learn more about the exhibitions, have fun, and learn new craft skills while engaging with professional artists

Mae Oriel Davies yn cynnig ystod o weith-gareddau'r celfyddydau i bob oed sy'n darparu cyfleoedd i ddysgu mwy am yr arddangosfeydd, cael hwyl mewn gweithdy gwyliau neu ddysgu sgiliau crefft newydd wrth gysylltu ag artistiaid proffesiynol



## Courses Cyrsiau

These courses take place at Oriel Davies Gallery in association with the University of Wales, Aberystwyth School of Education and Lifelong Learning. For further information and bookings: T: 01970 621580 E: learning@aber.ac.uk Mae'r cyrsiau isod yn cael eu cynnal yn Oriel Davies Gallery mewn cysylltiad ag Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes Prifysgol Cymru Aberystwyth. Am ragor o wybodaeth, ac i fwcio: Ff: 01970 621580 E: learning@aber.ac.uk

### Abstracting the Landscape

Leader: June Forster

This course offers a new direction and stimulus in painting. A willingness to 'have a go' is essential, as projects are intended to take participants beyond the conventional responses to the landscape and challenge their creativity.

**Tuesdays,10am-2.30pm,**
**27 April, 11 & 25 May, 15 June 2010**

For further information on cost and bookings please telephone the University: 01970 621580

### Haniaethu'r Tirwedd

Arweinydd: June Forster

Mae'r cwrs yma'n cynnig cyfeiriad ac ysgogiad newydd wrth beintio. Mae parodrwydd i 'gymryd rhan' yn hanfodol, gan mai bwriad prosiectau yw mynd â'r rhai hynny sy'n cymryd rhan tu hwnt i'r ymatebion confensiynol tuag at y tirwedd, a herio eu creadigrwydd.

**Dydd Mawrth, 10yh-2.30yh,**
**27 Ebrill, 11 & 25 Mai, 15 Mehefin 2010**

Am ragor o wybodaeth ynghylch y gost ac i fwcio, ffoniwch y Brifysgol: 01970 621580

### Writing Poetry 3 An Extended Course

Leader: Lara Clough

This course is ideally suited to those who have completed Poetry 1 and 2 or those with some experience and commitment to writing poetry. The course alternates group workshops with opportunities for online discussion with the tutor and your peers, allowing you to develop your creative and critical skills and build up a distinctive portfolio of your own work. Various poetic forms and modes are covered, along with editing and drafting skills. Opportunities to read, submit and enter your work for publication and competitions will be explores and discussed.

**Wednesday mornings,10.30am-12.30pm,**
**21 & 28 April, 5 & 19 May, 9 & 23 June,**
**7 July and 8 September 2010**

For further information on cost and bookings please telephone the University: 01970 621580

### Ysgrifennu Barddoniaeth 3 Cwrs Estynedig

Arweinydd: Lara Clough

Mae'r cwrs yma'n ddelfrydol i'r rhai hynny sydd wedi cwblhau cwrs Barddoniaeth 1 a 2 neu i'r rhai hynny sydd â rhywfaint o brofiad ac sy'n hoffi ysgrifennu barddoniaeth. Fel rhan o'r cwrs, cynhelir gweithdai mewn grwpiau a chyfleoedd bob yn ail i drafod ar-lein gyda'r tiwtor a chyfoedion, a'ch galluogi chi i ddatblygu eich sgiliau creadigol a beirniadol ac adeiladu portffolio unigryw o waith eich hun. Trafodir amryw o ffurfiau a dulliau barddol, a sgiliau golygu a drafftio. Bydd cyfleoedd i ddarllen, cyflwyno a cheisio cael eich gwaith wedi'i gyhoeddi neu i gymryd rhan mewn cystadlaethau, yn cael eu harchwilio a'u trafod.

**Pob bore dydd Mercher,10.30yb-12.30yh,**
**21 & 28 Ebrill, 5 & 19 Mai, 9 & 23 Mehefin,**
**7 Gorffennaf a 8 Medi 2010**

Am ragor o wybodaeth am y gost ac i fwcio, ffoniwch y Brifysgol: 01970 621580



# Children and Family Workshops
# Gweithdai i Blant a Theuluoedd

Booking for all workshops is essential and early booking is advised.
Further information on workshops and to book: T: 01686 625041 E: rhian@orieldavies.org
Mae'n rhaid archebu lle ar gyfer y gweithdai i gyd ac fe'ch cynghorir i archebu yn gynnar.
Os hoffech fwy o wybodaeth am weithdai neu archebion: T: 01686 625041
E: rhian@orieldavies.org

## Half Term Workshop: Musical Instruments

Leader: Helen Kennedy
Make chimes, rattles and drums from recycled materials.
**Tuesday 1 June 10.30am – 12.30pm**
Cost: £3

## Gweithdy hanner tymor: Offerynnau Cerddorol

Arweinydd: Helen Kennedy
Crëwch glychseiniau, clecwyr a drymiau o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.
**Dydd Mawrth 1 Mehefin 10.30yb – 12.30yh**
Cost: £3



# Summer Holiday Art Club
# Clwb Celf yn ystod Gwyliau'r Haf

**All sessions run from 10.30am – 12.30pm. Cost £3. £15 for all six sessions booked in advance. Children under 8 must be accompanied by an adult. Leader: Helen Kennedy**

**Cynhelir yr holl sesiynau o 10.30yb – 12.30yh. Cost £3 y sesiwn. £15 ar gyfer pob sesiwn sy'n cael eu bwcio o flaenllaw. Mae'n rhaid i blant o dan 8 mlwydd oed fynychu gydag oedolyn. Arweinydd: Helen Kennedy**

**Flick Books**
Make a flick book, and bring alive your own characters, inspired by the animation work in *RE:animate*, the current exhibition.
**Tuesday 20 July**

**Zoetropes**
Explore the moving image in a spinning drum by making a zoetrope. The Victorians loved them and so will you!
**Tuesday 27 July**

**Play with Scale**
Enter a fantasy world where everything is distorted! Bring magazines and comics to make surreal and altered-scale collages.
**Tuesday 3 August**

**Elastic Bands are Fun!**
Make and decorate fun vehicles powered by elastic bands.
**Tuesday 10 August**

**Upcycle!**
Don't just recycle, upcycle! Come and make useful things, like a purse or wallet from a juice carton, or a garden lantern from a tin can.
**Tuesday 17 August**

**Drip, Splatter and Blow!**
Wear old clothes for this fun session experimenting with paint techniques. Explore different ways of getting it onto the paper!
**Tuesday 24 August**

**Llyfrau Fflic**
Gwnewch lyfr fflic, a dewch â'ch cymeriadau chi eich hun yn fyw, wedi'ch ysgogi gan y gwaith animeiddio yn *RE:animate*, yr arddangosfa gyfredol.
**Dydd Mawrth 20 Gorffennaf**

**Soetropau**
Archwiliwch y ddelwedd sy'n symud mewn drwm sy'n troi drwy greu söetrop. Roedd y bobl o'r oes Fictoraidd wrth eu boddau gyda nhw, a byddwch chi hefyd!
**Dydd Mawrth 27 Gorffennaf**

**Chwarae gyda Maint**
Camwch i mewn i fyd ffantasi lle mae popeth yn ddi-siâp! Dewch â chylchgronau a chomics i greu gludwaith swrrealaidd, sydd wedi'u haddasu o ran maint.
**Dydd Mawrth 3 Awst**

**Mae Bandiau Elastig yn Hwyl!**
Crëwch ac addurnwch gerbydau doniol wedi'u pweru gan fandiau elastig.
**Dydd Mawrth 10 Awst**

**Uwchgylchu!**
Peidiwch ag ailgylchu yn unig, ond uwchgylchu! Dewch i wneud pethau defnyddiol, fel pwrs neu waled o garton, neu lantern ardd o gan tun.
**Dydd Mawrth 17 Awst**

**Diferu, tasgu a chwythu!**
Gwisgwch hen ddillad ar gyfer y sesiwn hon sy'n arbrofi gyda thechnegau paent. Archwiliwch ffyrdd gwahanol o'i gael ar y papur!
**Dydd Mawrth 24 Awst**

# Workshops Gweithdai

Booking for all workshops is essential and early booking is advised.
Further information on workshops and to book: T: 01686 625041 E: rhian@orieldavies.org
Mae'n rhaid archebu lle ar gyfer y gweithdai i gyd ac fe'ch cynghorir i archebu yn gynnar.
Os hoffech fwy o wybodaeth am weithdai neu archebion: T: 01686 625041 E: rhian@orieldavies.org

## Write/Draw

Leaders: Jill Cope and Lara Clough
A combined two day art and creative writing workshop based on an object of personal significance. Please bring along an object important to you; it could be a stone from the beach, a piece of pottery, an old implement – surprise us! The workshops are designed to be fun, and are suitable for both beginners and the more experienced.
**Tuesdays, 4 & 18 May, 10.30am-3.30pm.**
**Cost: £18 (£15 concessions)**



## Life Drawing

Leader: Jill Cope
Tutored sessions encouraging individual strengths, using a variety of materials in a relaxed and creative atmosphere.
Materials provided. Beginners welcome.
**Saturday mornings, 24 April, 19 June, 10 July, 10.15am-1.30pm**
**Cost: £15 (£13.50 concessions)**
**Extended session, Saturday 22 May, 10.30am-3.30pm. Cost: £17 (£15 concessions)**

## Ysgrifennu/Dylunio

Arweinwyr: Jill Cope a Lara Clough
Gweithdy celf ac ysgrifennu creadigol deuddydd sy'n seiliedig ar wrthrych sydd ag ystyr penodol. Dewch â gwrthrych gyda chi sy'n bwysig i chi; gallai fod yn garreg o'r traeth, yn ddarn o grochenwaith, yn hen declyn - rhowch syrpreis i ni! Mae'r gweithdai wedi'u dylunio i fod yn hwyl, ac maen nhw'n addas i ddechreuwyr ac i bobl fwy profiadol hefyd.
**Pob dydd Mawrth, 4 & 18 Mai, 10.30yb-3.30yh.**
**Cost: £18 (Consesiynau £15)**

## Bywluniad

Arweinydd: Jill Cope
Sesiynau sy'n annog cryfderau unigol, ac sy'n defnyddio amryw o ddeunyddiau mewn awyrgylch hamddenol a chreadigol. Darperir deunyddiau. Mae croeso i ddechreuwyr.
**Pob bore dydd Sadwrn, 24 Ebrill, 19 Mehefin, 10 Gorffennaf, 10.15yb-1.30yh**
**Cost: £15 (£13.50 consesiynau)**
**Sesiwn estynedig, Dydd Sadwrn 22 Mai, 10.30yb-3.30yh. Cost: £17 (Consesiynau: £15)**



# Talks and Events Sgyrsiau a Digwyddiadau

## Recital
## Adam Walker, flute and Huw Watkins, piano

**Tuesday, 8 June 2010, 7.30pm**



Adam Walker. Photo by Hanya Chlala

Oriel Davies is delighted to be partnering the 2010 Gregynog Festival, by hosting the Festival's opening recital. Adam Walker was appointed principal flute of the London Symphony Orchestra in 2009 aged 21. Tonight he plays Mozart, Franck, Debussy and Bartók and premières the 2010 Gregynog Festival commission written by the outstanding Welsh composer and pianist, Huw Watkins.

Refreshments during the interval can be purchased from Oriel Davies Gallery's licensed Café. Orders must be made in advance of the recital date or at the latest on arrival for the concert. Contact Alice Thomas on 01686 622288 to place orders.

**Tickets: £10** (children £5) **Please note: Tickets NOT for on sale at Oriel Davies Gallery and can ONLY be purchased directly from Gregynog Festival – please visit the Gregynog website or telephone 01686 207100 for further details: www.gwylgregynogfestival.org**

## Perfformiad
## Adam Walker, ffliwt a Huw Watkins, piano

**Dydd Mawrth, 8 Mehefin 2010, 7.30yh**

Mae'n bleser gan Oriel Davies weithio mewn partneriaeth gyda Gwyl Gregynog 2010, drwy gynnal perfformiad agoriadol yr Wyl. Fe benodwyd Adam Walker yn brif chwaraewyr ffliwt Cerddorfa Symffoni Llundain yn 2009, yn 21 mlwydd oed. Heno, mae'n chwarae darnau gan Mozart, Franck, Debussy a Bartók, a'n chwarae gwaith am y tro cyntaf yng Ngŵyl Gregynog 2010 a ysgrifennwyd gan y cyfansoddwyr a'r pianydd hynod, Huw Watkins.

Gellir archebu lluniaeth yn ystod yr egwyl o gaffi trwyddedig Oriel Davies Gallery. Mae'n rhaid archebu lluniaeth cyn dyddiad y perfformiad neu fan bellaf, pan rydych chi'n cyrraedd i weld y perfformiad. Cysylltwch ag Alice Thomas ar 01686 622288 i osod archebion.

**Tocynnau: £10** (plant £5) **Noder: NId yw tocynnau'n cael eu gwerthu yn Oriel Davies Gallery a DIM OND gan Wyl Gregynog y gallan nhw gael eu prynu'n uniongyrchol - ewch i wefan Gregynog neu ffoniwch 01686 207100 am ragor o fanylion: www.gwylgregynogfestival.org**

# News Newyddion

## Outside In

We are pleased to announce that the artists have been selected for *Outside in*, a disability inclusive project coordinated by *DASH*, which Oriel Davies is engaged with in partnership with The New Art Gallery, Walsall and Wolverhampton Art Gallery.

**Sean Burn** is working with The New Art Gallery Walsall, **Noëmi Lakmaier** is working with Wolverhampton Art Gallery, and **Katherine Araniello** and **Aaron Williamson** are working with Oriel Davies and will produce a Holiday Camp for disabled people on the shores of the River Severn in Summer 2011. For more information, please visit:
www.dasharts.org/forum.jsp
www.the-disabled-avant-garde.com

## Outside In

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod yr artistiaid wedi cael eu dewis i gymryd rhan ym mhrosiect *Outside in*, prosiect anabledd cynhwysol sy'n cael ei gydlynu gan DASH, lle mae Oriel Davies yn chwarae'i rhan mewn partneriaeth gyda The New Art Gallery, Walsall ac Oriel Gelf Wolverhampton.

Mae **Sean Burn** yn gweithio gyda The New Art Gallery, Walsall, mae **Noëmi Lakmaier** yn gweithio gydag Oriel Gelf Wolverhampton, ac mae **Katherine Araniello** ag **Aaron Williamson** yn gweithio gydag Oriel Davies, ac fe fyddan nhw'n creu Camp Gwyliau i bobl anabl ar lannau Afon Hafren yn ystod Tymor yr Haf 2011.
Am ragor o wybodaeth, ewch i:
www.dasharts.org/forum.jsp
www.the-disabled-avant-garde.com

## 'Lines of Desire' Call for Submissions

Oriel Davies' Young Curators have been making good progress with 'Lines of Desire', their next exhibition. They are currently seeking applications from artists whose work explores this broad concept and might include Pathways, Journeys, Maps, Contours, Routes, Borders, Timelines, Tracks, Positions, Coordinates, Narratives and Storylines.

The exhibition runs from 28 August – 20 October 2010 and **deadline for submissions is 30 April 2010**. Application details can be found at:
www.orieldavies.org

## 'Lines of Desire' Galw am Geisiadau

Mae Curaduron Ifanc Oriel Davies wedi bod yn gwneud gwaith da o ran datblygu 'Lines of Desire', eu harddangosfa nesaf. Ar hyn o bryd, maen nhw'n edrych am geisiadau gan artistiaid sydd â gwaith sy'n archwilio'r syniad eang yma a allai gynnwys Llwybrau Cerdded, Teithiau, Mapiau, Amlinau, Llwybrau, Ffiniau, Llinellau Amser, Traciau, Sefyllfaoedd, Cyfesurynnau, Hanesion a Rhediadau Stori.

Fe fydd yr arddangosfa'n rhedeg o 28 Awst - 20 Hydref 2010 a'r **dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwaith yw 30 Ebrill 2010.** Gellir dod o hyd i fanylion ynghylch sut i ymgeisio yn:
www.orieldavies.org

## cyfeillion oriel davies friends

**The Friends are always keen to expand their membership. Would you like to join? As a Friend, you will receive a range of benefits and opportunities to broaden your involvement and enjoyment of the visual arts.** Annual membership is £12 single, £6 student or £20 double membership for two members at the same address. For further information and to join, please ring the gallery on 01686 625041 or email: rhian@orieldavies.org

**Mae'r Cyfeillion bob amser yn awyddus i ehangu aelodaeth. Hoffech chi ymuno? Fel cyfaill, byddwch yn derbyn ystod o fanteision a chyfleoedd i ehangu eich ymglymiad a'ch mwynhad o'r celfyddydau.** Mae aelodaeth Blynyddol fel a ganlyn: £12 am aelodaeth sengl, £6 i fyfyrwyr neu £20 am aelodaeth ddwbl i ddau aelod yn yr un cyfeiriad. Am ragor o wybodaeth ac i ymuno, ffoniwch yr oriel 01686 625041 neu anfonwch e-bost: rhian@orieldavies.org.

## Thanks to our funders

**Oriel Davies warmly thanks the following organisations for their generous support, which has ensured continued excellence of our programme and services:**
Esmée Fairbairn Foundation; The Laura Ashley Foundation; The Ernest Cook Trust; The Henry Moore Foundation; Engage; The Paul Hamlyn Foundation; Powys County Council; Arts Council England; the Arts Council of Wales Lottery. With special thanks to The Gwendoline and Margaret Davies Charity and The Friends of Oriel Davies Gallery for the support of our education programme.

Oriel Davies Gallery is revenue funded by the Arts Council of Wales and Powys County Council. Registered Charity No. 1034890

## Diolch i'n cyllidwyr

**Mae Oriel Davies yn diolch yn gynnes iawn i'r cyrff canlynol am eu cymorth hael, sydd wedi sicrhau bod ein rhaglen a'n gwasanaethau ardderchog yn parhau:**
Esmée Fairbairn Foundation; The Laura Ashley Foundation; The Ernest Cook Trust; The Henry Moore Foundation; Engage; The Paul Hamlyn Foundation; Powys County Council; Arts Council England; the Arts Council of Wales Lottery.Diolch yn arbennig i Elusen Gwendoline a Margaret Davies a Chyfeillion Oriel Davies Gallery am gefnogi ein rhaglen addysg.

Cyllidir Oriel Davies gan refeniw oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Sir Powys. Rhif Elusen 1034890

Cyngor Celfyddydau Cymru / The Arts Council of Wales — Supporting Creativity
Powys
Esmée Fairbairn Foundation
Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales

# Schools and Colleges
# Ysgolion a Cholegau

**A visit to Oriel Davies gives pupils and teachers the chance to engage with professional artists and to experience and respond to original artworks at first hand**



College students responding to Simon Whitehead's Afield, working with artist Morag Colquhoun
Myfyrwyr coleg yn ymateb i Afield gan Simon Whitehead, wrth weithio gyda'r artist Morag Colquhoun

**Mae ymweld ag Oriel Davies yn rhoi cyfle i ddisgyblion ac athrawon gysylltu ag artistiaid proffesiynol ac addysgwyr artistiaid ac i brofi ac ymateb i waith celf gwreiddiol yn uniongyrchol.**

**Ymweliadau ag arddangosfeydd o dan ofal tywysydd** Hyrwyddo trafodaeth ac ysgogi ymatebion i'r arddangosfa gyfredol. Mae'n para am tua awr. Maint y grwp fydd hyd at 30. **Am dim**

**Gweithdai** Gweithdy o dan arweiniad artist ac ymweliad ag arddangosfa. Maint y grwp fydd hyd at 20. Hanner diwrnod £2.50/diwrnod llawn £3.50 yr un Gofynnir i grwpiau ysgol sy'n ymweld ag Oriel Davies Gallery yn anffurfiol roi gwybod i ni ymlaen llaw eich bod yn dod

**Guided exhibition visits** Encouraging discussion and stimulating responses to the current exhibition. Lasts about 1 hour. Group size up to 30. Free

**Workshops** Artist-led workshop and exhibition visit. Group size up to 20. Half day £2.50 / Full day £3.50 per head. School groups visiting Oriel Davies Gallery informally are asked to let us know in advance of their arrival.

## coming up this summer term...
## i ddod yn ystod tymor yr haf...

**Photography Project for Schools**
April - May 2010
Working with professional photographer, Cordelia Weedon, pupils will learn about looking at images, composition and camera use, using digital and film-based photography to respond to their own surroundings.

**Mask Making and Photo Portraits Workshop**
April - June 2010
In this workshop led by Helen Kozich, pupils will construct mixed-media masks, and record each others' new 'alter egos' by making individual masked photo portraits. For Foundation Phase and above.

**Animation Workshops**
1-14 July 2010
A unique opportunity for pupils to create original, individual short video animation sequences on a shared theme, working with artist filmmaker Chris Oakley.

**Prosiect Ffotograffiaeth i Ysgolion**
Ebrill- Mai 2010
Drwy weithio gyda'r ffotograffydd proffesiynol, Cordelia Weedon, bydd disgyblion yn dysgu ynghylch edrych ar luniau, cyfansoddi a defnyddio camera, defnyddio ffotograffiaeth ddigidol a ffotograffiaeth sy'n seiliedig ar ffilm, i ymateb i amgylchoedd eu hunain.

**Gweithdy Gwneud Masg a Phortreadau**
Ebrill- Mehefin 2010
Yn y gweithdy yma sy'n cael ei arwain gan Helen Kozich, bydd disgyblion yn creu masgiau cyfrwng cymysg, a'n cofnodi 'hunan arall' newydd ei gilydd drwy wneud masgiau o bortreadau unigol. Ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac uwch.

**Gweithdai Animeiddio**
1-14 Gorffennaf 2010
Cyfle unigryw i ddisgyblion i greu dilyniannau animeiddio fideo byr, gwreiddiol, unigol ar thema ranedig, gan weithio gyda'r gwneuthurwr ffilm, Chris Oakley.

**Information and Bookings**
**To find out more about what we can offer, to receive our regular school mailings or to book a visit or workshop, contact Helen Kozich, Education Officer (Schools & Colleges)**
**T: 01686 625041 E: helenk@orieldavies.org**

**Gwybodaeth ac Archebion**
**I ddarganfod mwy am beth y gallwn ei gynnig, i dderbyn ein postiadau rheolaidd i ysgolion neu i archebu ymweliad neu weithdy, cysylltwch â Helen Kozich, Swyddog Addysg (Ysgolion a Cholegau) F: 01686 625041**
**E: helenk@orieldavies.org**

# gallery café
# caffi'r oriel

salads salad quiches quiche tapas
tapas homemade soups cawl cartref
homemade cakes cacennau cartref



Monday - Saturday, 10am - 4.30pm
Tables can be booked in advance 01686 622288
Ddydd Llun - ddydd Sadwrn, 10yb - 4.30yh
Gellir archebu byrddau ymlaen llaw ar 01686 622288

## Room Hire

Oriel Davies Gallery offers a superb room hire facility to suit meeting, training and conference needs. With room for up to 40 people (lecture format) and up to 25 people (board-room style), we can cater to all needs. A wide range of equipment is available for use including slide projectors, digital multimedia projectors and OHPs. If you would like further details on cost and availability, please visit our website or contact Rhian Davies 01686 625041 or email rhian@orieldavies.org

## Hurio Ystafelloedd

Mae Oriel Davies Gallery yn cynnig cyfleuster gwych i hurio ystafell addas ar gyfer cyfarfodydd, hyfforddiant a chynadleddau. Gyda lle i hyd at 40 o bobl (ar ddull darlith), a hyd at 25 o bobl (ar ddull ystafell fwrdd), gallwn ddarparu ar gyfer eich holl anghenion. Mae ystod eang o offer ar gael i'w ddefnyddio gan gynnwys taflunyddion sleidiau, taflunyddion aml-gyfrwng digidol, acuwchdaflunyddion. Os hoffech fanylion pellach a gwybodaeth am gostau ac argaeledd ymwelwch â'n gwefan neu cysylltwch â Rhian Davies 01686 625041 neu ebostiwch samantha@orieldavies.org

## How to find us Sut i ddod o hyd i ni




Oriel Davies Gallery

GALLERY·CAFE·SHOP·ORIEL·CAFFI·SIOP
Oriel Davies Gallery, The Park, Newtown, Powys SY16 2NZ
T: +44 (0)1686 625041 F: +44 (0)1686 623633 E: enquiries@orieldavies.org
Monday - Saturday, 10am-5pm Llun - Sadwrn, 10yb - 5yh
www.orieldavies.org

# WHATS ON
## APRIL - AUGUST 2010
# BETH SYDD YMLAEN
## EBRILL - AWST 2010

**17 APRIL - 9 JUNE 2010**

Gallery 1 + 2
Field Work **Dave Lewis**

Test Bed
Fantasy is a Place Where it Rains **Patrick Farmer and Sarah Hughes**

APRIL
EBRILL

Saturday 17 April 2010, 6-8pm
**Preview:** Dave Lewis / Farmer & Hughes

Wednesday 21 April 10.30am -12.30
**Course:** Poetry Writing

Saturday 24 April 10.15am-1.30pm
**Course:** Life Drawing

Tuesday 27 April 10.30am-2.30pm
**Course:** Abstracting the Landscape

Wednesday 28 April 10.30am-12.30pm
**Course:** Poetry Writing

MAY
MAI

Tuesday 4 May 10.30am-12.30pm
**Workshop:** Write/Draw Part 1

Wednesday 5 May 10.30am-12.30pm
**Course:** Poetry Writing

Tuesday 11 May 10.30am-2.30pm
**Course:** Abstracting the Landscape

Tuesday 18 May 10.30am-3.30pm
**Workshop:** Write/Draw Part 2

Wednesday 19 May 10.30am-12.30pm
**Course:** Poetry Writing

Saturday 22 May 10.30am-3.30pm
**Course:** Life Drawing (All day)

Tuesday 25 May 10.30am-2.30pm
**Course:** Abstracting the Landscape

JUNE
MEHEFIN

Tuesday 8 June, 7pm
**Concert:** Adrian Walker & Hugh Watkins

Tuesday 1 June 10.30am-12.30pm
**Workshop:**Make Musical Instruments

Wednesday 9 June10.30am-12.30pm
**Course:** Poetry Writing

Tuesday 15 June 10.30am-2.30pm
**Course:** Abstracting the Landscape

**FRIDAY 18 JUNE 2010, 7PM**

Gallery 1 + 2
The Modes of Al-Ikseer
**Harminder Singh Judge**

**26 JUNE - 18 AUGUST 2010**

Gallery 1 + 2
Oriel Davies Open 2010
**RE:animate**

Test Bed
Interloper
**Dawn Woolley**

JUNE
MEHEFIN

Saturday 19 June 10.15am-1.30pm
**Course:** Life Drawing

Wednesday 23 June 10.30am-12.30pm
**Course:** Poetry Writing

Saturday 26 June 2010 6-8pm
**Preview:** RE:animate/ Dawn Woolley

JULY
GORFFENNAF

Wednesday 7 July 10.30am-12.30pm
**Course:** Poetry Writing

Saturday 10 July 10.15am-1.30pm
**Course:** Life Drawing

Tuesday 20 July 10.30am-12.30pm
**Workshop:** Art Club: Make a Flickbook

Tuesday 27 July 10.30am-12.30pm
**Workshop:** Art Club: Zoetropes

AUGUST
AWST

Tuesday 3 August 10.30am-12.30pm
**Workshop:** Art Club: Play with Scale

Tuesday 10 August 10.30am-12.30pm
**Workshop:** Art Club: Elastic bands are Fun!

Tuesday 17 August 10.30am-12.30pm
**Workshop:**Art Club: Upcycle!

Tuesday 24 August 10.30am-12.30pm
**Workshop:** Art Club: Drip, Splatter& Blow!

Oriel Davies Gallery
www.orieldavies.org

Oriel Davies Gallery, The Park, Newtown,
Powys SY16 2NZ T: +44 (0)1686 625041
Email: enquiries@orieldavies.org
Mon-Sat, 10am-5pm Llun-Sad, 10am-5pm

**GALLERY·CAFE·SHOP·ORIEL·CAFFI·SIOP**